***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 927 (Cy.90)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 29 o Atodlen 3 iddi(**1**) ac ar ôl cwblhau'r ymgynghori statudol fel y'i rhagnodwyd o dan baragraff 29(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2008 a daw i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") "yw 1 Ebrill 2008;

ystyr "yr hen ymddiriedolaeth" ("*the old trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg a sefydlwyd ar 4 Ionawr 1999;

ystyr "yr ymddiriedolaeth newydd" ("*the new trust*") yw Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg a sefydlwyd ar 12 Mawrth 2008.

### Trosglwyddo cyflogeion i'r trosglwyddai

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), trosglwyddir contract cyflogaeth unrhyw berson a oedd yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei gyflogi gan yr hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y contract hwnnw'n effeithiol fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y person a gyflogir felly a'r ymddiriedolaeth newydd.

---

(**1**) 2006. p.42.
(**2**) Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymgynghori ar Sefydlu a Diddymu) 1996, O.S. 1996/653, sy'n parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff 1(2) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. p.43.

(2) Heb ragfarnu paragraff (1) uchod —

(a) yn rhinwedd yr erthygl hon, trosglwyddir yr holl hawliau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan gontract neu mewn cysylltiad â chontract y mae'r paragraff hwnnw'n gymwys iddo i'r ymddiriedolaeth newydd ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) bernir bod unrhyw beth a wnaed cyn y dyddiad hwnnw gan yr hen ymddiriedolaeth neu mewn perthynas â hi ynglŷn â'r contract hwnnw neu'r cyflogai hwnnw, o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen wedi'i wneud gan yr ymddiriedolaeth newydd neu mewn perthynas â hi.

(3) Nid yw paragraffau (1) a (2) uchod yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan unrhyw gyflogai i derfynu ei gontract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol er niwed i'r cyflogai yn ei amodau gwaith, ond ni fydd unrhyw hawl o'r fath yn codi yn unig oherwydd y newid mewn cyflogwr a berir gan yr erthygl hon.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**3.** Ar y dyddiad trosglwyddo trosglwyddir holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r hen ymddiriedolaeth, sydd heb eu crybwyll yn erthygl 2 uchod, i'r ymddiriedolaeth newydd gan gynnwys heb gyfyngiad—

(a) y ddyletswydd i baratoi'r cyfrifon sydd heb eu cwblhau gan yr hen ymddiriedolaeth a chyflawni'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r cyfrifon hynny;

(b) eiddo ymddiriedol yr hen ymddiriedolaeth a restrir yn yr Atodlen.

**Trosglwyddo swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd**

**4.** Trosglwyddir holl swyddogaethau'r hen ymddiriedolaeth i'r ymddiriedolaeth newydd a byddant yn cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mawrth 2008

## YR ATODLEN

Erthygl 3(b)

| *Eiddo* | *Deiliadaeth (a rhif teitl pan fo'n gymwys)* |
|---|---|
| **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg** | |
| **Ysbyty** | |
| Castell-nedd Port Talbot | Rhydd-ddaliad (WA634236) |
| Cimla | Rhydd-ddaliad (WA788547) |
| Glan-rhyd (gan Clinig Caswell) | Rhydd-ddaliad (WA683580) gynnwys |
| Maes-gwyn | Rhydd-ddaliad (WA723641) |
| Maesteg | Rhydd-ddaliad (WA69691) |
| Tonna | Rhydd-ddaliad (WA787072) |
| Tywysoges Cymru | Rhydd-ddaliad (WA683500) |
| **Canolfannau Iechyd** | |
| Blaengwynfi | Rhydd-ddaliad (WA535702) |
| Castell-nedd | Rhydd-ddaliad (WA788533) |
| Glyncorrwg | Rhydd-ddaliad (WA787088) |
| Llansawel | Rhydd-ddaliad (WA788469) |
| Llanilltud Fawr | Rhydd-ddaliad (WA767960) |
| Port Talbot | Rhydd-ddaliad (WA787096) |
| Y Bont-faen | Rhydd-ddaliad |
| Y Cymer | Rhydd-ddaliad (WA788542) |
| **Clinigau** | |
| Abercynffig | Rhydd-ddaliad (WA683571) |
| Baglan | Rhydd-ddaliad (WA787058) |
| Bro Ogwr | Rhydd-ddaliad (CYM16926) |
| Bryncethin | Rhydd-ddaliad (WA683576) |
| Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr | Rhydd-ddaliad (WA683609) |
| Caerau | Rhydd-ddaliad (WA683614) |
| Y Cymer, Croeserw | Rhydd-ddaliad (WA788467) |
| Cwmafan | Rhydd-ddaliad (WA788552) |
| Glyn-nedd | Rhydd-ddaliad (WA788540) |
| Gwauncaegurwen | Rhydd-ddaliad (WA902057) |
| Gogledd Corneli | Rhydd-ddaliad (WA683624) |
| Heol Cwarela, Pen-y-bont ar Ogwr | Rhydd-ddaliad (CYM18893) |
| Mynydd Cynffig | Rhydd-ddaliad (CYM229523) |
| Pen-coed | Rhydd-ddaliad (WA683602) |
| Pontycymer | Rhydd-ddaliad (WA683622) |

| *Eiddo* | *Deiliadaeth (a rhif teitl pan fo'n gymwys)* |
|---|---|
| Port Talbot | Rhydd-ddaliad (WA788011) |
| Resolfen | Rhydd-ddaliad (WA788558) |
| Sgiwen Cefn Parc | Rhydd-ddaliad (WA787103) |
| Ystalyfera | Rhydd-ddaliad (WA788580) |
| **Anableddau Dysgu** | |
| Byngalo Bryn Afon, Ferndale | Rhydd-ddaliad (WA142507) |
| Byngalo Dan y Bont, Mynydd Cynffig | Rhydd-ddaliad (WA103201, WA950795 & WA944101) |
| Byngalo Dan y Deri, Treforys | Rhydd-ddaliad (WA788490) |
| Byngalo Llety Newydd, Yr Eglwys Newydd | Rhydd-ddaliad (CYM23543) |
| Byngalo Meadow Court, Tonyrefail | Rhydd-ddaliad (WA336282 & CYM75532) |
| Canolfan Asesu Hafod y Wennol, Hensol | Rhydd-ddaliad (CYM101833) |
| Canolfan Asesu Llwyneryr | Rhydd-ddaliad (WA788490) |
| Byngalo Swyn yr Afon, Blaendulais | Rhydd-ddaliad (WA142507) |
| Byngalo The Briary, Trelái, Caerdydd | Rhydd-ddaliad (WA887948) |
| Byngalo The Laurels, Trelái , Caerdydd | Rhydd-ddaliad (WA887948) |
| Byngalo Tŷ Penfro, Treganna, Caerdydd | Rhydd-ddaliad (WA404686) |
| Byngalo Tŷ Garth Newydd, Pentre'r Eglwys | Rhydd-ddaliad (CYM66004) |
| Uned Asesu Rowan House, Trelái, Caerdydd (a rhan o Ganolfan Iechyd Park View Health cyfagos) | Lesddaliad |
| **Iechyd Meddwl** | |
| Canolfan TIMC Gelli Gron, Pontardawe | Lesddaliad |
| TIMC Forge, Port Talbot | Rhydd-ddaliad (WA536914) |
| TIMC Porthcawl, 267 New Road, Porthcawl | Rhydd-ddaliad (WA586819) |
| TIMC Brackla House, Pen-y-bont ar Ogwr | Lesddaliad |
| **Amrywiol** | |
| 7a Boverton Road, Llanilltud Fawr | Lesddaliad |
| 16/18 Derwen Road, Pen-y-bont ar Ogwr | Lesddaliad |
| 45/47 South Road Porthcawl | Lesddaliad |
| Bevan House, Cyflenwadau Iechyd Cymru, Llanisien | Lesddaliad |
| Uned 16, Lambourne Crescent, Llanisien | Lesddaliad |
| Denbigh Stores, Clwyd | Rhydd-ddaliad (CYM312486) |
| Glynteg House, Trelái, Caerdydd | Lesddaliad |
| North Road Stores, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr | Lesddaliad |

| *Eiddo* | *Deiliadaeth (a rhif teitl pan fo'n gymwys)* |
|---|---|
| Canolfan Gofal Sylfaenol Pontardawe | Lesddaliad |
| Heol Cwarela, Swyddfeydd Pencadlys yr Ymddiriedolaeth, Pen-y-bont ar Ogwr | Rhydd-ddaliad (WA683598) |
| Canolfan Sbectrwn, Y Tyllgoed, Caerdydd | Lesddaliad |
| Uned 3, Cowbridge Court, Caerdydd | Lesddaliad |
| Unedau 22 a 23, Ystad Ddiwydiannol Baglan Industrial Estate | Lesddaliad |
| 10/11 Ffordd yr Hen Gae, Bocam Park, Pen-coed | Lesddaliad |
| Uned 81, Bowen Court, Llanelwy | Lesddaliad |
| 1 Commercial Street, Bro Ogwr | Lesddaliad |
| Innovation House, Llanharan | Lesddaliad |
| Uned 2, Parc Busnes Tonysguboriau | Lesddaliad |
| Canolfan Gofal Sylfaenol Cwm Dulais | Lesddaliad |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg o 1 Ebrill 2008 ymlaen.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Bro Morgannwg i Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe Bro Morgannwg ar 1 Ebrill 2008.